**Adroddiad i'r:** **Cabinet**

**Dyddiad y Cyfarfod:** **29 Mawrth 2016**

**Aelod / Swyddog Arweiniol:** **Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill / Richard Weigh, Prif Swyddog Cyllid**

**Awdur yr Adroddiad:** **Steve Gadd, Prif Gyfrifydd**

**Teitl:** **Adroddiad Cyllid**

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn rhoi manylion am gyllideb refeniw ac arbedion y Cyngor fel y cytunwyd arnynt ar gyfer 2015/16. Mae'r adroddiad hefyd yn rhoi diweddariad cryno o'r Cynllun Cyfalaf yn ogystal â'r Cyfrif Refeniw Tai a'r Cynllun Cyfalaf Tai. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys diweddariad ar y Setliad Terfynol ar gyfer Cyllideb 2016/17.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Pwrpas yr adroddiad yw rhoi diweddariad ar sefyllfa ariannol bresennol y cyngor.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2015/16 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arnynt ar gyfer y gyllideb.

Bod yr Aelodau'n cymeradwyo'r defnydd o'r tanwariant o fewn y Cynllun Ariannu Preifat (PFI) a Chyllidebau Cyllido Cyfalaf o £677k i sefydlu cronfa wrth gefn i helpu i liniaru effeithiau gostyngiadau yn y dyfodol yn yr arian a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r strategaeth cyllideb ar gyfer 2017/18.

Bod yr Aelodau'n nodi'r wybodaeth ddiweddaraf am y Setliad Terfynol a chymeradwyo'r defnydd a argymhellir o'r £6k ychwanegol mewn cyllid Llywodraeth Cymru.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Mae'r adroddiad yn crynhoi cyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer 2015/16 yn **Atodiad 1**. Cyllideb refeniw net y Cyngor yw £185 miliwn (£188 miliwn yn 14/15). Rhagwelwyd y bydd tanwariant o £0.585 miliwn ar wasanaethau a chyllidebau corfforaethol (£0.419 miliwn o danwariant ar ddiwedd mis Ionawr). Mae manylion pellach ynglŷn â'r rhesymau dros yr amrywiaethau a'r risgiau a thybiaethau sy'n sail iddynt wedi'u hamlinellu isod.

Cytunwyd ar arbedion o £7.3m fel rhan o'r gyllideb ac mae crynodeb o'r arbedion yn **Atodiad 2**. Mae £6.647m (91%) o'r arbedion eisoes wedi'u cyflawni. Fel y gwelir rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o'r 9% o arbedion hyn yn weddill yn cael eu cyflawni erbyn 2016/17 fan bellaf.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae rheoli cyllidebau refeniw a chyfalaf y cyngor yn effeithiol a chyflawni'r strategaeth gyllidebol y cytunwyd arni yn sylfaen i weithgarwch ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Mae manylion gwasanaethau sylweddol ar gael yn y paragraffau isod. Rhagamcanir ar hyn o bryd y bydd nifer o wasanaethau yn tanwario ac mae'r arwyddion yn cael eu cynnwys isod ynghylch sut y gall gwasanaethau fod yn cynllunio i gario drosodd a defnyddio'r adnoddau hyn yn y flwyddyn ariannol newydd. Fodd bynnag, bydd argymhellion llawn sy'n cwmpasu cynigion gwasanaeth yn cael eu hystyried yn fwy manwl yn yr adroddiad cyllid nesaf.

**Gwasanaethau Plant** - Disgwylir y bydd y gwasanaeth yn gorwario o £326k (£308k o orwariant fis diwethaf). Fel nodwyd y mis diwethaf, gall newidiadau i leoliadau cost uchel gael effaith ariannol sylweddol. Parheir i obeithio y gall y gwasanaeth leihau'r gorwariant amcanol cyfredol cyn diwedd y flwyddyn ariannol, fel arall bydd y pwysau'n cael ei ariannu trwy Gronfa Wrth Gefn Lleoliadau Arbenigol.

**Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd** – Rhagamcanir y bydd y gwasanaeth yn tanwario o £54k (£89k fis diwethaf) oherwydd gweithrediad cynnar arbedion y gyllideb a gytunwyd. Mae'r symudiad ers y mis diwethaf o ganlyniad i gostau cyfreithiol yn ymwneud ag apêl cais cynllunio a aeth yn mynd yn erbyn y Cyngor.

**Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol** - Mae nifer o risgiau a materion yn dal i fodoli o fewn y gwasanaeth yn 2015/16 a thu hwnt o ran Parcio, Cludiant Ysgol, ac Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru. Fel yr adroddwyd yn fanwl mewn adroddiadau blaenorol, mae camau rheoli wedi cael eu nodi i helpu i liniaru'r risgiau penodol hyn ac mae'r effeithiau hefyd wedi cael eu gwrthbwyso gan nifer o danwario mewn mannau eraill o fewn y gwasanaeth. Felly rhagamcanir ar hyn o bryd y bydd y gwasanaeth yn gorwario £37k (£75k o orwariant wedi'i adrodd fis diwethaf). Mae'r symudiad yn ymwneud â rheolaeth ofalus pellach o wariant dewisol ar draws y gwasanaeth a thybiaethau diwygiedig o ran gweithgarwch cynnal a chadw yn y gaeaf.
Mae effaith y tywydd garw gwlyb ar ddiwedd mis Rhagfyr wedi gadael y Cyngor gydag ôl-groniad o waith cynnal a chadw sy'n ofynnol ar y rhwydwaith ffyrdd. Mae asesiad llawn o'r gofyniad yn dal i gael ei gwblhau ond mae'n debygol o fod yn fwy na £250k. Mae cyllid yn cael ei geisio oddi wrth Llywodraeth Cymru, fodd bynnag, bydd y gwaith yn cael ei ariannu gan y Gronfa Tywydd Garw hyd yn oed os nad oes cyllid allanol ar gael.

**Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd -** Rhagamcanir y bydd y gwasanaeth yn awr yn gorwario £66k (gorwariant o £67k y mis diwethaf). Mae'r rhan fwyaf o'r symudiad hwn yn ymwneud â chostau ymadael staff sy'n ffurfio rhan o ailstrwythuro a fydd yn helpu'r gwasanaeth i foderneiddio a dod yn fwy gwydn yn y blynyddoedd i ddod.

**Cyllid, Asedau a Thai -** Rhagamcanir y bydd y gwasanaeth yn awr yn tanwario o £18k (tanwariant o £24k y mis diwethaf) sy'n ymwneud â swyddi gwag staff.

**Gwella Busnes a Moderneiddio -** Rhagwelir ar hyn o bryd mai tanwariant y gwasanaeth fydd £321k (tanwariant o £126k y mis diwethaf). Mae £28k o'r symudiad yn ymwneud ag adnabod arbedion yn gynnar o gwmpas cyflwyno Cynllunio Busnes ar draws y Cyngor, bydd yr arbediad cyllideb blwyddyn lawn yn cyfrannu at y targed o £100k ar gyfer 16/17. Mae'r £167k sy'n weddill yn ymwneud â lleihau costau ymgynghori TGCh, credydau ychwanegol a dderbyniwyd ar gontractau cyfathrebu yn ogystal ag adolygiad o'r ymrwymiadau a gynhaliwyd ar y system. Mae'r gwasanaeth yn gobeithio defnyddio'r tanwariant i wrthbwyso costau ailstrwythuro gwasanaeth a gynlluniwyd o fewn TGCh, ymestyn rôl archifydd dros dro o fewn Rheoli Gwybodaeth a buddsoddi mewn hyfforddiant staff.

**Datblygu Busnes ac Economaidd -** Rhagamcannir y bydd y gwasanaeth ar hyn o bryd yn tanwario o £55k (rhagamcanir i adennill costau y mis diwethaf). Mae £35k o'r symudiad yn ymwneud ag oedi wrth gaffael offer o fewn y Gwasanaeth Ieuenctid, y gobaith yw y gall y gwasanaeth gario'r tanwariant hwn drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf i ariannu offer allgymorth. Mae'r symudiad sy'n weddill yn ymwneud â newid yn yr amserlen a ragwelir ar gyfer recriwtio Rheolwr Canolfan Hamdden a lleihau nifer o orwario bach.

**Gwella Ysgolion a Chynhwysiant –** Rhagwelir y bydd y gwasanaeth yn tanwario o £43k (£114k o danwariant wedi'i adrodd fis diwethaf). Mae'r symudiad o £71k yn ymwneud â chynnydd mewn costau Tu Allan i'r Sir. Gobeithir y gellir defnyddio'r tanwariant sy'n weddill yn y dyfodol i gynorthwyo i ariannu gofynion ychwanegol y gwasanaeth o ganlyniad i Fil Drafft Tribiwnlys Addysg ac Anghenion Dysgu Ychwanegol sy'n nodi cynigion ar gyfer system ddeddfwriaethol newydd i gefnogi plant a phobl ifanc, 0-25 oed, sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

**Ysgolion –** Y rhagamcan diweddaraf ar gyfer balansau ysgolion yw £1.320m (£1.426m y mis diwethaf), sy'n ostyngiad o £2.218m ar falansau a ddygwyd ymlaen o 2014/15 (£3.538m). Mae adroddiadau monitro wedi'u cyflwyno i'r adran gyllid yn nodi'r risgiau a'r tybiaethau sydd wedi hysbysu'r rhagamcanion a chrynodebau'r cynlluniau sydd ar waith i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a/neu ddelio â diffygion ariannol a ragwelir. Rhagwelir y bydd y gyllideb heb ei dirprwyo yn gorwario o £66k oherwydd costau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag ehangu Band Eang mewn Ysgolion. Gobeithir y bydd y gorwariant hwn yn cael ei fantoli yn erbyn gostyngiad mewn costau pensiwn hanesyddol, er ni fydd y ffigyrau hyn yn hysbys tan ddiwedd y flwyddyn ariannol.

**Datblygu Busnes ac Economaidd -** Rhagamcenir y bydd y gwasanaeth ar hyn o bryd yn tanwario o £149k (tanwariant o £142k y mis diwethaf). Mae'r tanwariant o ganlyniad i oedi mewn gwaith prosiect mewn nifer o feysydd fel y nodir yn adroddiadau monitro blaenorol. Nid oes unrhyw ostyngiad yn nifer neu faint o gamau gweithredu a gynigir yn y cynlluniau gwariant a disgwylir i gostau godi yn awr yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, lle gobeithir bydd y gwasanaeth yn gallu cario cyllid priodol drosodd.

**Corfforaethol –** Rhagamcanir y bydd tanwariant yn y cyllidebau Corfforaethol o £374k ar hyn o bryd (tanwariant o £374k y mis diwethaf).

Yn ystod y flwyddyn mae'r sefyllfa gyllidebol o gwmpas prynu allan y PFI wedi'i gadw dan adolygiad ac yn wir mae wedi cyfarwyddo rhyddhau arbedion cyllideb ar gyfer 2016/17. Wrth i ni nesáu at ddiwedd y flwyddyn ariannol, gellir yn awr gadarnhau y bydd tanwariant yn ystod y flwyddyn o £577k yn ymwneud â'r meysydd cyllideb hyn. Ochr yn ochr â'r £100k hwn, nodwyd tanwariant yn y Gyllideb Ariannu Cyfalaf oherwydd gostyngiad yn yr angen i fenthyca'n allanol. Argymhellir bod y tanwariant hwn o £677k yn cael ei roi mewn cronfa wrth gefn i helpu i liniaru effeithiau gostyngiadau mewn cyllid yn y dyfodol fel y nodwyd yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig diweddaraf (MTFP). Bydd y gyllideb PFI flaenorol yn helpu i gyfrannu at dargedau effeithlonrwydd fel rhan o'r gyllideb ar gyfer 2017/18.

Fel yr amlygwyd dros y misoedd diwethaf, mae'r risg yn parhau ar gyllidebau corfforaethol ynghylch tebygolrwydd cyfraniadau pellach yn cael eu codi i wasanaethu rhwymedigaethau'r cyngor (ynghyd â'r rhan fwyaf o rai eraill yn y DU) o ran y cyn Gwmni Yswiriant Municipal Mutual. Roedd cynghorau yn gyd-aelodau o'r cwmni ac maent wedi etifeddu rhwymedigaethau ar ôl iddo ddirwyn i ben. Mae'r rhwymedigaethau yn ymwneud â hawliadau hanesyddol. Mae hyn yn dilyn £393k a dalwyd yn 2014/15. Nid oes unrhyw ffigurau wedi cael eu dyfynnu eto i dalu'r ardoll ddiweddaraf ond mae amlygiad mwyaf y cyngor yn £2.225m. Er nad ydym yn disgwyl derbyn hysbysiad ynglŷn â'r rhwymedigaeth ariannol cyn mis Mawrth 2016, mae'n debyg y bydd y ffigwr yn debyg i'r hyn a dalwyd yn 2014/15, ac os felly, bydd yn cael ei ariannu o'r gyllideb gorfforaethol.

**Risgiau / Tybiaethau Gwasanaethau Eraill -** Er y rhagamcanir y bydd gwasanaethau eraill yn adennill arian ar hyn o bryd mae nifer o risgiau a thybiaethau fydd yn cael eu monitro'n agos dros y misoedd nesaf a'u hadrodd i'r Aelodau.

Ar ddechrau 2015/16 roedd cronfeydd arian parod y **Cynllun Corfforaethol** yn £17.413 miliwn. Gan ganiatáu ar gyfer ariannu a gwariant sydd wedi eu rhagamcan yn ystod y flwyddyn, amcangyfrifir y bydd arian wrth gefn y Cynllun Corfforaethol ar ddiwedd y flwyddyn yn £2m.

Mae crynodeb o **Gynllun Cyfalaf** y Cyngor yn **Atodiad 3**. Mae'r cynllun cyfalaf cyffredinol a gymeradwywyd yn £45.4miliwn ac mae'r gwariant hyd yma yn £36.2m. Hefyd yn Atodiad 3 mae'r gwariant arfaethedig o £24m yn 2015/16 ar y **Cynllun Corfforaethol**. Yn **Atodiad 4** mae diweddariad ynglŷn â'r prif brosiectau sydd wedi eu cynnwys yn y Cynllun Cyfalaf.

Y **Cyfrif Refeniw Tai (CRT**). Mae'r sefyllfa refeniw ddiweddaraf yn rhagdybio y bydd cynnydd mewn balansau ar ddiwedd y flwyddyn o £186k o'i gymharu â chynnydd yn y gyllideb o £168k. Rhagamcanir y bydd balansau CRT yn £2.037miliwn ar ddiwedd y flwyddyn. Rhagolwg gwariant y Cynllun Cyfalaf Tai yw £5.6m. Bydd unrhyw lithriad yn y cynllun cyfalaf yn cael ei ddwyn ymlaen i'r Cynllun Cyfalaf Tai ar gyfer 2016/17.

**Rheoli'r Trysorlys -** Ar ddiwedd mis Chwefror, roedd cyfanswm benthyciadau'r cyngor yn £187.337 miliwn ar raddfa gyfartalog o 5.01%. Roedd balansau buddsoddi yn £9.4miliwn ar gyfradd gyfartalog o 0.72%.

**Diweddariad o'r Gyllideb -** Ar 2 Mawrth cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Setliad Terfynol i Lywodraeth Leol, a gymeradwywyd gan y Cynulliad ar 10 Mawrth. Fel y cafodd ei addo ychydig iawn o newid a fu rhwng y Setliadau Drafft a Therfynol, fodd bynnag, fe wnaeth arwain at gyllid ychwanegol o £6k ar gyfer Sir Ddinbych. Argymhellir bod y £6k ychwanegol yn cael ei ychwanegu at y £480k wrth gefn Corfforaethol ar gyfer 2016/17 y gellir ei ddefnyddio i helpu i wneud iawn am unrhyw oedi wrth gyflawni effeithlonrwydd.

**7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad?**

Cynhyrchwyd asesiad o effaith manwl fel rhan o broses gosod y gyllideb a adroddwyd i'r Cyngor ym mis Rhagfyr 2014.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Yn ogystal ag adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, mae proses y gyllideb wedi cael ei ystyried gan y Tîm Gweithredol Corfforaethol, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, cyfarfodydd briffio'r Cabinet a briffio'r Cyngor. Cafodd cynigion penodol eu hadolygu gan bwyllgorau archwilio a bu ymarferiad ymgysylltu â'r cyhoedd i ystyried effaith cynigion y gyllideb. Mae'r cyngor wedi ymgynghori â'r partneriaid trwy'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol ar y Cyd a chynhaliwyd trafodaethau penodol gyda'r Heddlu. Fe ddiweddarwyd pob aelod staff ynghylch y broses gosod y gyllideb, ac fe ymgynghorwyd yn llawn â staff a fydd yn cael eu heffeithio, neu fe fydd ymgynghori'n digwydd â nhw, yn unol â pholisïau a gweithdrefnau AD y Cyngor. Ymgynghorwyd ag Undebau Llafur trwy'r Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Mae'n bwysig bod gwasanaethau'n parhau i reoli cyllidebau'n ddoeth a bod unrhyw arian dros ben o fewn y flwyddyn yn cael ei ystyried yng nghyd-destun y sefyllfa ariannol tymor canolig, yn arbennig o ystyried graddfa'r gostyngiadau y mae'n ofynnol eu gwneud yn y gyllideb yn ystod y ddwy neu dair blynedd nesaf.

**10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Dyma'r cyfnod ariannol mwyaf heriol y mae'r cyngor wedi ei wynebu a byddai methu a chyflawni’r strategaeth y cytunwyd arni gogyfer â’r gyllideb yn rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau yn y flwyddyn ariannol gyfredol ac yn y dyfodol. Bydd monitro a rheoli’r gyllideb yn effeithiol yn helpu i sicrhau bod y strategaeth ariannol yn cael ei chyflawni.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol o dan Adran 151, Deddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu eu materion ariannol yn briodol.